

Datganiad dilysrwydd

ID yr Asesiad	Rhif y cymhwyster
Enw'r ymgeisydd	Rhif yr ymgeisydd
Enw'r darparwr	Rhif y darparwr

Hysbysiad i Ymgeiswyr

1. Rhaid i chi gyflwyno eich gwaith eich hun i'w asesu.

Rhaid i chi beidio â llên-ladrata. Mae hyn yn golygu na ddylech gymryd geiriau, meddyliau, syniadau na gwaith rhywun arall a cheisio eu trosglwyddo fel eich geiriau, eich syniadau neu'ch gwaith eich hun.

2. Rhaid i chi gyfeirio'n glir at eich holl ffynonellau.

Os ydych chi wedi defnyddio unrhyw ddeunydd i greu syniadau ar gyfer eich gwaith (fel llyfr, cyfnodolyn neu wybodaeth oddi ar y rhyngwrdd) rhaid i chi gyfeirio at hyn, hyd yn oed os nad ydych chi wedi defnyddio'r un geiriau neu ymadroddion yn union yn eich gwaith eich hun. Rhaid i chi egluro pa ran, elfen neu ymadrodd rydych chi wedi'i ddefnyddio a dweud o ble y daeth. Os ydych chi'n cael cymorth ac arweiniad gan rywun ar wahân i'ch athro, rhaid i chi ddweud hynny wrth eich athro. Byddant wedyn yn cofnodi'r cymorth a roddir i chi.

3. Rhaid i chi gydnabod a chyfeirio'n glir at unrhyw ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI).

Weithiau, pan ganiateir hynny, gallwch ddefnyddio adnodd AI i gefnogi'r gwaith o greu tystiolaeth ar gyfer eich asesiad. Rhaid i chi gadw copi o'r cwestiwn/cwestiynau gwreiddiol rydych chi wedi'u gofyn i AI, yn ogystal ag unrhyw gynnwys a gynhyrchwyd gan AI a ddefnyddiwyd gennych; er enghraifft, sgrinlun gydag esboniad byr o sut roeddech chi wedi'i ddefnyddio. Rhaid i chi gydnabod enw'r adnodd AI a ddefnyddiwyd; y dyddiad y cynhyrchwyd y cynnwys; a'r ffynonellau a ddefnyddiwyd gan yr adnodd AI i gynhyrchu'r cynnwys.

Mae angen i chi gyflwyno hyn gyda'ch gwaith terfynol er mwyn i'ch athro allu gwirio'r cynnwys AI a sut rydych chi wedi'i ddefnyddio.

4. Rhaid i chi gadw eich gwaith yn gyfrinachol.

Dim ond gyda'ch aseswr/aseswyr y gallwch chi rannu'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno i'w asesu. Rhaid i chi beidio â'i rannu ag unrhyw un arall, a rhaid i chi beidio â'i bostio ar-lein.

5. Rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno i'w asesu gael ei gynhyrchu o dan yr amodau a nodir yn y dogfennau asesu

Mae gan bob cymhwyster set benodol o amodau. Bydd eich asesydd wedi egluro lefel yr oruchwyliaeth a'r rheolaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer yr asesiad hwn.

Os byddwch chi'n torri'r rheolau, gallech chi gael dim marc, cael eich anghymhwyso o'r uned neu'r pwnc, neu hyd yn oed gael eich anghymhwyso o bob arholiad. Bydd City & Guilds yn ymchwilio ac yn penderfynu beth sy'n digwydd nesaf.

Os oes unrhyw beth nad ydych chi'n ei ddeall, siaradwch â'ch aseswr cyn i chi lofnodi'r ffurflen isod.

Datganiad yr Ymgeisydd

Rwyf wedi darllen a deall yr Hysbysiad i Ymgeiswyr uchod. Rwy'n datgan bod y gwaith a gyflwynwyd ar gyfer yr asesiad hwn:

1. yn waith rwyf wedi'i wneud fy hun
2. yn cyfeirio'n glir at bob ffynhonnell a ddefnyddiwyd
3. yn cydnabod yn glir unrhyw ddefnydd o AI
4. wedi cael ei gadw'n gyfrinachol
5. wedi cael ei gynhyrchu o dan yr amodau a nodir yn y dogfennau asesu.

Os byddaf yn gwneud datganiad ffug, rwyf yn deall bod hyn yn fath o gamymarfer.

Os oes unrhyw beth nad ydych chi'n ei ddeall, siaradwch â'ch aseswr cyn i chi lofnodi'r ffurflen.

Llofnod yr ymgeisydd:	Dyddiad

Hysbysiad i Aseswyr

Rhaid i chi gadw copi o Ddatganiad yr Ymgeisydd ar ffeil nes bydd y dyddiad cau wedi mynd heibio ar gyfer gofyn am adolygiad o ganlyniadau, neu nes bydd apêl, achos camymarfer neu ymchwiliad arall i ganlyniad wedi cael ei gwblhau; pa un bynnag sydd hwyraf. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael ei archwilio gan City & Guilds a/neu un o Arolygwyr Canolfan y Cyd-Gyngor Cymwysterau.

Cyn lofnodi'r datganiad hwn, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen a deall y canllawiau a gynhyrchwyd gan y Cyd-gyngor Cymwysterau ar ddilysu gwaith ymgeiswyr, marcio gwaith ymgeiswyr a phrosesau safoni mewnol. Gwnewch yn siŵr hefyd eich bod yn gyfarwydd â safon gwaith cyffredinol yr ymgeisydd.

Datganiad yr Asesydd

Rwy'n cadarnhau:

- bod yr holl gamau rhesymol wedi'u cymryd, gan gynnwys camau i liniaru'r risg o gamddefnyddio AI, er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a gyflwynwyd
- hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi cael eu cyfeirnod
- hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod unrhyw ddefnydd o AI wedi'i wneud a'i gydnabod yn briodol gan yr ymgeisydd
- bod unrhyw gymorth a roddwyd i'r ymgeisydd wedi cael ei nodi isod yn yr adran cymorth ychwanegol

- hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y gwaith wedi cael ei gadw'n gyfrinachol (pan oedd gyda'r ymgeisydd) ac wedi cael ei storio'n ddiogel gan y ganolfan (pan fo'n briodol ar gyfer yr asesiad)
- bod gwaith yr ymgeisydd wedi cael ei wneud o dan yr amodau gofynnol a nodir yn y dogfennau asesu
- bod y gwaith marcio (lle bo hynny'n berthnasol) wedi'i gynnal yn unol â'r cynllun marcio ac ni ddefnyddiwyd AI fel yr unig ddull o farcio; rwyf wedi adolygu'r gwaith yn ei gyfanrwydd ac wedi penderfynnu'r marc terfynol
- bod proses safoni mewnol (lle bo hynny'n berthnasol) wedi'i chynnal i sicrhau bod pob ymgeisydd wedi cael ei asesu yn erbyn yr un safon.

Cymorth Ychwanegol

A yw'r ymgeisydd wedi derbyn unrhyw gymorth ychwanegol i gynhyrchu'r gwaith hwn?

☐ Do ☐ Naddo (Ticiwch fel sy'n briodol)

Os ydyw, rhowch fanylion isod (ac ar ddalen ar wahân os oes angen).

Asesydd:

Rwy'n deall bod datganiad ffug yn fath o gamymarfer.

Llofnod yr asesydd	Dyddiad

Sylwer: Lle nad yw'r ymgeisydd a/neu'r asesydd yn gallu neu ddim yn cadarnhau dilysrwydd drwy lofnodi'r ffurflen datganiad hon, bydd y gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r darparwr, a bydd hyn yn arafu'r broses farcio (lle bo hynny'n berthnasol). Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi, gellir cysylltu â'r asesydd i gyfiawnhau ei fod yn ddilys.